# AFAN (yn gynnar yn y 6ed ganrif), nawdd-sant

**Enw:** Afan
**Rhiant:** Cedig ap Ceredig ap Cunedda Wledig
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** nawdd-sant
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** John Edward Lloyd

Fe'i disgrifir fel mab Cedig ap Ceredig ap Cunedda Wledig ac fe'i cysylltir, o dan yr enw ' Afan Buellt,' â chantref Buellt yng nghanolbarth Cymru. Yma ceir dwy o'i eglwysi, sef Llanafan Fawr a Llanafan Fach; ceir y drydedd Llanafan yn nyffryn Ystwyth. Ceir arysgrif yn perthyn tua'r flwyddyn 1300 yn Llanafan Fawr yn darllen fel hyn: 'Hic iacet sanctus Avanus Episcopus.' Barnwyd oddi wrth hon ei fod yn ben ar esgobaeth yn y parthau hyn, eithr yn ei oes ef golygai'r teitl safle neu radd yn hytrach na thiriogaeth. Hydref 16 (neu 17) ydyw ei ddydd g  yl, ac o'r Lladin ' Amandus ' y deillia ei enw.

## Awdur

**Syr John Edward Lloyd**, (1861 - 1947)

## Ffynonellau

*The Lives of the British Saints*, i, 114-5

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Afan Buallt

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q4072521

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu